



Cynllun Lliniaru Llifogydd Glenbói

Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin a dŵr wyneb i 24 eiddo preswyl yn ardal Aberpennar.

Crynodeb o'r Cynllun	
Ardal Strategol Perygl Llifogydd	Canol Cwm Cynon 2
Canolfan/Swyddfa	Glenbói, Aberpennar
Eiddo sy'n elwa	24 eiddo preswyl
Math o Gynllun	Gorsaf Bwmpio
Cost	£1,406,000
Contractwr	Engolve Infrastructure Ltd a Hydrock
Statws	Wedi cwblhau
Dyddiad Cwblhau Cynllun	Medi 2023
Ffynhonnell Ariannu	Grant Cyfalaf Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru



Delwedd o Orsaf Bwmpio Glenbói yn cael ei hadeiladu.

Cefndir y Cynllun

Mae cymuned Glenbói yn rhan o gymuned Abercwmboi, ac mae wedi'i osod yn safle 130 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR), a ddatblygwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu dull gwrthrychol o nodi risg a blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd ar lefel gymunedol Cymru gyfan.

Mae ardal Glenbói wedi bod yn destun sawl digwyddiad o lifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol oedd llifogydd ar 15 ac 16 Chwefror 2020 yn dilyn Storm Dennis, lle aeth dŵr i mewn i 9 eiddo gyda 15 eiddo arall yn dioddef llifogydd allanol. Y digwyddiad o lifogydd yma oedd y 4^{ydd} digwyddiad yn dilyn Storm Bronagh a Callum a ddigwyddodd yn ystod 2018 a nododd yr un lefel o lifogydd mewnol.

Priodolir prif ffynhonnell llifogydd yng Nglenbói i'r rhwydwaith o gyrsiau dŵr cyffredin i'r de o'r pentref sydd mewn cwlferd trwm o dan Bryn y Rhedyn a Glenbói ac yn arllwys i Afon Cynon i'r gogledd o Glenbói. Mae gorlifant o geuffos y cyrsiau dŵr yn draenio tuag at y pwynt isel yng Nglenbói, gan arwain at ddŵr wyneb yn cronni a gorgynhwysedd yr orsaf bwmpio bresennol.

Disgrifiad o'r Cynllun

Nod cynllun lliniaru llifogydd Glenbói yw lliniaru'r perygl o lifogydd drwy ddisodli'r orsaf bwmpio priffordd bresennol gyda **strwythur gwell** i ddarparu ar gyfer llifoedd dros dir o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin sy'n mynd i mewn i'r pwynt isel o fewn priffordd Glenbói. Nod y cynllun yw darparu system bwmpio fwy effeithlon a capasiti uwch i **leihau'r perygl o lifogydd** i dai cyfagos yn Glenbói, tra hefyd **yn lleihau'r llifoedd brig** i'r cwlferd presennol i lawr yr afon sydd o fewn ardal o risg llifogydd uchel.

Roedd y cynllun yn cynnwys datgomisiynu a gwella'r orsaf bwmpio priffordd bresennol i **wella perfformiad** a **chynyddu capasiti'r** orsaf bwmpio. Gosodwyd prif bibell godi newydd ar draws Heol Aberdâr, sef pibell sy'n cludo dŵr gwastraff neu ddŵr storm o lefel is i uwch, gan helpu i **reoli llif dŵr** ar draws gwahanol ardaloedd ac atal llifogydd.

Uwchraddiwyd y seilwaith draenio priffyrdd o fewn priffordd Glenbói i wella ei effeithlonrwydd, a gosodwyd draeniad **rhyng-gipio llif dros dir** o fewn y briffordd, a **ddyluniwyd i ddal ac ailgyfeirio** dŵr ffo wyneb, gan **leihau'r cronni** dŵr wyneb ar y ffordd.

Gwnaethpwyd gwelliannau i gompownd yr orsaf bwmpio a mynediad i'r safle, **gan wneud y safle'n fwy hygyrch ar gyfer cynnal a chadw** a gwella diogelwch ac effeithlonrwydd gweithrediad yr orsaf. Cafodd wal flaen arllwysfa'r orsaf bwmpio ei huwchraddio hefyd, **gan wella'r rheolaeth ar ollwng dŵr**, a **lleihau erydiad a difrod posibl** i'r seilwaith.

Yn olaf, gosodwyd basn biogadw yn rhan o'r cynllun i **reoli dŵr wyneb**. Defnyddir y pantiau neu fasnau bas hyn sydd wedi'u tirlunio i **arafu a thrin** dŵr ffo arwyneb ar y safle, gan **wella ansawdd dŵr** trwy hidlo llygryddion a **chyfrannu at fioamrywiaeth** yr ardal.

Buddion y Cynllun



Lleihau perygl llifogydd ar gyfer 24 eiddo a lleihau effaith ynysu ar gyfer 491 eiddo preswyl pellach



Cynyddu cynhwysedd yr Orsaf Bwmpio i reoli llif y dŵr a gwella cydnerthedd yn y gymuned




Technegau Rheoli Llifogydd Naturiol a ddefnyddir i osod basn bio-gadw



Darparu **Q100 + 40% Safon Amddiffyn Newid yn yr Hinsawdd**



Gwella'r Draeniad Priffyrdd yng Nglenbói i leihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb ar y briffordd



Gwell mynediad i'r orsaf bwmpio i wella gweithrediad y safle a galluogi cynnal a chadw parhaus